


Eisteddfod y Cymoedd



20fed o Hydref 2017

Dechrau am 4:00

Campws y Gwyndy, Caerffili

Dyddiad Cau Cofrestru i Gystadlu
a danfon y gwaith Llenyddol a Ffotograffiaeth
Dydd Gwener - 6ed o Hydref



eisteddfodycymoedd@gmail.com



@eistycymoedd



www.eisteddfodycymoedd.cymru



Eisteddfod y Cymoedd

**Dewch i ymuno yn yr hwyl..... dawnsio, canu,
llefaru, llenyddu, barddoni, ffotograffiaeth....
mewn Noson Gymdeithasol gyda BAR!!**

PWYLLGOR A SWYDDOGION

Cadeirydd: Robert Dutt

Ymgynghorydd: Ann Lewis



*Ariennir yn
rhannol gan
Lywodraeth
Cymru*

Trysorydd: Eyron Thomas e.thomas119@btinternet.com

Golygydd: Ben Jones benamary2000@yahoo.co.uk 02920 862428 07891916046

Ysgrifennydd: Marian Fairclough faircloughme@aol.com 02920 885151

Ysgrifennydd Cofnodion: Ann Lewis

Golygydd Llundain: Mary Jones

Cynorthwy-ydd: Jan Penney **Digwyddiadur:** huwrowlands@mentercaerffili.cymru

Ieuenctid: Morgan Roberts, Swyddog Prosiect Llais, a Bethan Jones Menter Caerffili

Y Pwyllgor: Eirlys Thomas, Gareth W. Williams, Dilys Williams, Dafydd Islwyn

e-bost: Golygydd@papurcwmni.cymru **Gweplyfr/ Facebook:** Papur Bro Cwmni

Gwefan: mentercaerffili.cymru/ **Cwmni** 

Croesawir erthyglau gan unrhyw un ond iddynt gyrraedd desg y Golygydd cyn 20fed diwrnod y mis cyn cyhoeddi.

Cedwir yr hawl i gwtogi neu newid erthyglau neu luniau yn unol â gofynion golygyddol.

Argraffir gan Tower Print, Uned 12a, Ystâd Ddiwydiannol Tŷ Bedwas, Caerffili, CF83 8DW

Oedfaon Mis Hydref

Capeli Caerffili

Bedyddwyr Tonyfelin

- 1af Bore a hwyr: Dr Huw Matthews
8fed Bore a hwyr: Dr J. Gwynfor Jones
15fed 10.30: Parch Milton Jenkins
6.00 Ian Smith
22ain 10.30: Dr Neville Evans
6.00: Parch Ray Vincent
29ain Bore a Hwyr: Marc Jon Williams

Bethel yr Annibynwyr

- 1af. 10.30 a 6.00 Parch. Maldwyn Jones
(Plymouth) (C ymun am 6 00.)
8 fed 10.30 a 6.00 Parch. Dafydd Henri
Edwards
15 fed. 10.30 a 6.00. Ymuno â Thonyfelin
22ain. 10.30. Parch Milton Jenkins
29 ain. 10.30 Parch Haydn Thomas (Cymun)

Capel y Groeswen

- 8 fed 3:00 o'r gloch Y Cynhaeaf
Y Parch Malcolm Shapland

Hanes Cwm Ni


5/10/17 Yr Athro Wyn James

Williams Pantycelyn ac ardal
Caerffili

9/11/17 Yr Athro Bill Jones

Yr Ymfudo o Gymru i America yn
y bedwaredd ganrif ar bymtheg

7/12/17 Cwis Hanes Cymru



Clwb Rygbi Penallta

Ystrad Mynach CF82 7EP

7:00yh

Am ragor o fanylion:

helen.young@coleggwent.ac.uk

01495 333702

Eisiau dysgu mwy am
hanes yr ardal? Dewch i
wrando. Croeso i bawb.

Addas ar gyfer siaradwyr
CANOLRADD / UWCH /
HYFEDREDD



mentercaerffili.cymru

Datblygwyd y ffônlyfr gan Fenter Iaith Sir Caerffili er mwyn hyrwyddo'r busnesau a mudiadau hynny yn lleol sy'n medru cynnig gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.

Bwriad y llyfr yw cefnogi siaradwyr a dysgwyr Cymraeg lleol i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u bywydau pob dydd a phwysleisio gwerth economaidd y Gymraeg i'r ardal.

Yn aml, dywedir nad oes unrhyw fusnesau'n lleol sy'n medru cynnig gwasanaethau cyfrwng Cymraeg. Dengys y llyfr bod amrywiaeth sylweddol o wasanaethau cyfrwng Cymraeg ar gael yn lleol. Mae'n bosib ymweld â meddyg, deintydd ac optegydd sy'n siarad Cymraeg yn ogystal â chael car wedi ei drwsio gan fecanig sy'n siarad Cymraeg.

Fe fydd y ffônlyfr yn galluogi pobl leol i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn cymunedau gwahanol ac o fewn elfennau amrywiol eu bywydau. Yn ogystal, y gobaith yw y bydd y llyfr yn dangos i siaradwyr Cymraeg ifanc bod galw cynyddol am eu sgiliau iaith Gymraeg yn lleol a beth yw gwerth y sgiliau hynny.

Pan ddechreuodd prosiect newydd Menter Caerffili sydd am gefnogi busnesau i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg, roedd y ffônlyfr yn ddefnyddiol i gefnogi ein Swyddog Busnes. Bu'n bosib i weld faint o fusnesau yn Sir Caerffili sydd yn defnyddio'r Gymraeg. Mae hyn yn golygu gall staff fod yn ddysgwyr neu yn rhugl ond yn hapus ac yn frwd dros yr Iaith Cymraeg.

Fel unrhyw adnodd tebyg mae'r ffônlyfr wedi dyddio yn barod gyda phobl yn cysylltu er mwyn ychwanegu eu manylion. Mae'r Fenter felly yn apelio at ddarllenwyr y papur:

os ydych yn nabod unrhyw gwmni sydd yn defnyddio'r iaith Gymraeg boed yn gwmni gydag un aelod o staff neu'n gwmni sydd a nifer o siaradwyr Cymraeg, gofynnwch iddynt gysylltu gyda'n Swyddog Busnes. E-bostiwch huwrowlands@mentercaerffili.cymru os hoffech chi neu eich cwmni fod yn rhan o ddatblygiad y ffônlyfr.

Os hoffech chi dderbyn copi o'r ffônlyfr mae nifer wedi eu dosbarthu dros y Sir i lefydd cyhoeddus megis canolfannau hamdden a llyfrgelloedd. Os ydych yn methu dod o hyd iddo neu os hoffech dderbyn nifer i'w dosbarthu eto cysylltwch gyda'r Fenter a byddwn yn hapus i'ch helpu.

Hoffai'r Fenter ofyn i chi ddefnyddio'r busnesau yma a defnyddio'r Gymraeg o fewn y sefydliadau sydd yn y ffônlyfr i ddangos iddynt fod y Gymraeg yn fantais fawr i unrhyw gwmni neu fusnes yng Nghaerffili.

Huw Rowlands, Swyddog Busnes



Merched y Wawr Cwm Rhymni 2017-18



Er gwybodaeth, rhag ofn bod chwant arnoch ymuno â ni eleni, fel aelodau, neu ar ambell achlysur, amgaeaf fanylion o'r hyn bwriadwn ei wneud ym mis Medi a mis Hydref.

Tâl aelodaeth £5

Ymwelwyr achlysurol £3

Mae croeso diffuant i chi ymuno â changen Cwm Rhymni. Rydyn fel arfer yn cwrdd ar y trydydd nos Fercher o'r mis (yn Bethel, Tonyfelin neu Ysgol Penalltau) - ond yn fwy fwy rydyn yn cwrdd yn ystod y dydd pan awn ar ymweliadau gweddol leol.

Bore Mercher, 18 Hydref 2017 11.00 - Crefft yn y Bae

Ym mis Hydref byddwn yn mynd i Crefft yn y Bae ar y trê. Pawb i gwrdd yno erbyn 11.00 pan fydd un o'r crefftwyr, Ruth Shelley sy'n gweithio gyda gwydr, yn ein tywys oddi amgylch yn siarad am hanes a gwaith y ganolfan. Bydd hefyd yn siarad am waith rhai o'r crefftwyr eraill sydd yno ac wrth gwrs yn siarad am ei chrefft ei hun.


Cawn ginio ysgafn yn y caffi sydd ar y safle, Caffisio (rhan o Chapter) tua 1.00. Dwy ddim yn siwr a oes rhaid archebu ymlaen llaw - byddant yn rhoi gwybod i ni - ond mae angen rhoi gwybod sawl un fyddwn ar y diwrnod. Felly plis a wnewch ddanfôn ebost nol ataf i gadarnhau eich bod yn bwriadu dod i'r Bae: j.jones-annetts@gmail.com neu gaynorw555@g.mail.com

Cerdded dros forglawdd Bae Caerdydd

Bu rhaid i ni ohirio'n taith gerdded ym mis Gorffennaf oherwydd tywydd garw. Felly os oes diddordeb 'da unrhyw un i gerdded ar y morglawdd ar ôl ein cinio - a chyn dychwelyd i'r trê - fe fyddai hynny'n hyfryd. Fe hoffwn i gerdded - os yw'r tywydd yn caniatáu, wrth gwrs!

Taith Aur y Paneli - Pierhead, Bae Caerdydd - o ddydd Llun, 23 Hydref tan ddydd Mawrth, 31 Hydref 2017

Sylwaf bod y Paneli Hechsagon yn cael eu harddangos yn ystod wythnos olaf mis Hydref yn adeilad y Pierhead. Fe wnaeth Gwyneth Davies banel ar ein rhan ni fel cangen sydd nawr wedi ei gynnwys yn y cyfanwaith. Hoffwn fynd lawr i'w gweld. Efallai hoffai eraill ohonoch ddod hefyd - eto ar y trê. Rhowch wybod os oes diddordeb



Beirniaid Eisteddfod y Cymoedd 2017

Dawnsio Gwerin – Iwan Griffiths BBC

Ffotograffiaeth – Irfon Bennett

Llenyddol – Emyr Davies

Llefaru – Menna Lewis

Offerynnol – Rhiannon a Richard Vaughan

Dawnsio Disgo – Holly Parker

Lleisiol – Odette Jones, Jenny Walker

Cyfeilydd - Bethan Phillips

Mae NAW gwahaniaeth rhwng y ddau lun. Allwch chi ddod o hyd iddyn nhw?



Mae **11** o enwau ffrwythau yn y **Chwilair**.
Allwch chi ddod o hyd iddyn nhw?

EIRIN BRICYLL MAFON

BANANA GELLYG LEMWN

MWYARN DUON OREN

AFAL MEFUS TOMATO

Mae'r atebion ar dudalen 15

Llongyfarchiadau


Bu dathliadau mawr ar y Watford yr haf yma wrth i Dafydd, mab Rose a John Davies briodi yn y Bontfaen ar yr 10fed o Fehefin.

Bydd ein darllenwyr yn cofio Dafydd yn ddisgybl yn Ysgol Gymraeg Caerffili ac Ysgol Gyfun Cwm Rhymni. Wedi gadael yr ysgol aeth Dafydd ar gwrs TG cyn mynd ati i hyfforddi eraill. Oddi yno aeth i Cambria Mobel yn Nhrefforest ac yna i Nuair yn Ebrill 2008 lle cyfarfu, a syrthio mewn cariad â Karen Sian Linder.

Ac un o Gaerffili yw Karen hefyd wedi'i haddysgu yn Ysgol y Twyn ac Ysgol Sant Martin. Fe aeth i Goleg Pontypridd ac ymlaen i weithio yn Nuair lle mae wedi bod am 20 mlynedd erbyn hyn.

Dyweddiodd y ddau ar ddiwedd mis Hydref diwethaf, a dechreuwyd cynllunio'r briodas ym mis Chwefror eleni. Cynhaliwyd y gwasanaeth a'r neithior yng Ngwesty'r 'Bear' yn y Bontfaen.

Wedi mwynhau eu mis mel yn Fuerteventura yn Ynysoedd y Canaries mae'r ddau yn ymgartrefu ym Mryncenydd, Caerffili.



Clwb Darllen Cwmni

Cyfle i'r aelodau rannu eu profiadau wrth ddarllen dros wyliau'r haf a gafwyd yng nghyfarfod mis Medi'r Clwb. A storïau byrion oedd prif sylwedd y trafod.

Wedi i'r criw fwynhau "Pantywennol" ym mis Gorffennaf daethpwyd o hyd i gyfrol ddiweddaraf yr un awdur, Ruth Richards, sef, "Pobol i'w Hosgoi", casgliad diddorol o straeon byrion, rhai byr iawn a dweud y gwir. Ac aeth Ben ati i gymharu'r gyfrol hon â straeon byrion "Y Gwreiddyn". Casgliad yw hwn gan Caryl Lewis, awdur a dderbyniodd groeso cynnes gan y cylch cyn hyn. Roedd Rhian hefyd wedi bwrw ati i ddarllen storïau enillydd Medal Ryddiaith y Genedlaethol eleni ac wedi



mwynhau "Rhannu Ambarél" a enillodd y brif wobr lenyddol i Sonia Edwards, awdur arall mae'n haelodau wedi mwynhau ei gwaith. Mae'n ddigon posib y bydd y llyfr hwn ar agenda'r grŵp yn ystod y dyfodol agos.

Ac am Sonia Edwards roedd Elin am sôn, sef y nofel "Deryn Glân i Ganu".


Nofel eithaf diddorol a chyffrous yw hi gyda chymeriadau cryf, ac mae rhai o'r penodau yn darllen bron fel storïau byrion. Cawson ni drafodaeth eithaf diddorol eto am storïau byrion a sut maen nhw'n gweddu pan fo bywyd yn brysur. Mae'n dda nawr ac yn y man i ymlacio a dianc mewn i stori fer.

Aethom ni ymlaen wedyn i drafod storïau mewn cyfnod a lleoliad arbennig.

Roeddem ni i gyd yn hoffi storïau wedi eu gosod mewn llefydd cyfarwydd.

Hunangofiant oedd dewis Mary a hithau wedi bod yn darllen "Os Hoffech

Wybod..." gan y Prifardd Dic Jones. Ail-ddarllen hwn roedd Mary ar ôl llawer o flynyddoedd a hynny wedi ei hysbrydoli i droi at "Cofio Dic" gan Idris Reynolds, cyfrol arall am y cyn-Archdderwydd,



Hunangofiant arall, sef yr un am J. Cyril Hughes, "O Flaenau Tywi i Lannau Taf", aeth â bryd Marian, yn fwyaf arbennig am ei bod yn adnabod y gwrthrych yn bersonol a bod sôn am Rhian, un o'n haelodau, yn y llyfr. Ac mae Marian bellach wrthi'n darllen cyfraniad Jan i'n cyfarfod, sef cyfrol Kate Bosse-Griffiths, "Mae'r Galon wrth y Llyw". Llyfr digon dwys yw hwn gyda dogn da o athroniaeth. Ac roedd yr aelodau yn synnu wrth ystyried i'r awdur allu llunio gwaith mor gaboledig yn y Gymraeg yn 1957 a hithau ond wedi dod i Gymru pan oedd yn ffoi rhag y Natsïaid adeg yr Ail Ryfel Byd !

Dewch i ymuno â ni ar yr ail o Hydref pan fyddwn yn trafod campwaith y diweddar Gareth F. Williams, "Awst yn Anogia". Am ddau o'r gloch ar lawr cyntaf y llyfrgell newydd.

Mae nifer yn derbyn y papur bro yn fisol dros y We. Mae yna fanteision.....

- ♦ Byddwch yn derbyn eich papur yn syth.
- ♦ Byddwch yn gweld pob un dudalen mewn lliw.
- ♦ Byddwch yn arbed papur.

Gyrrwch eich cyfeiriad ebost at y Golygydd, does angen gwneud dim byd mwy!

benamary2000@yahoo.co.uk/ Golygydd@papurcwmni.cymru

Urdd Gobaith Gwent

A ninnau, â thristwch mawr yn ffarwelio â Helen ein braint yw cyflwyno manylion tîm Urdd Gobaith Cymru yn ein Rhanbarth. Dyma, hefyd, eu manylion cysylltu



Casi Cartwright

Swyddog Datblygu newydd
Swyddfa'r Urdd, Neuadd Isaf Iago Sant,
Heol Hanbury, Pontypwl, NP4 6JT
01495 752 589 / 07976003350
Casi@Urdd.org



Angharad Wyn Jones

Arweinydd Tim Ieuenctid
a Gwersylloedd
Swyddfa'r Urdd,
Neuadd Isaf Iago Sant,
Heol Hanbury, Pontypwl,
NP4 6JT
01495 752 589 / 07976003352




Mared Jones

Urdd Gobaith Cymru
Swyddog Ieuenctid
Caerffili
07976003347
maredjones@urdd.org



Sion Lewis

Urdd Gobaith Cymru
Swyddog Ieuenctid
Casnewydd a
Blaenau Gwent
07976003317
sionlewis@urdd.org



Rachel Catrin Davies

Urdd Gobaith Cymru
Swyddog Chwaraeon
Rhanbarth Gwent
077881782600
rachel@urdd.org

Dathlu 275 yn y Groeswen

1742—2017



Vaughan Roderick

Ddechrau mis Medi eleni cynhaliwyd cyfarfod arbennig i ddathlu pen-blwydd Eglwys Annibynnol y Groeswen yn 275 oed. Trefnwyd y cyfarfod gan Vaughan Roderick, darlledwr ar bynciau gwleidyddol y BBC. Roedd Tawelfryn Thomas, ei hen dad-cu, yn siarad yno 75 mlynedd ynghynt ac ystyria Vaughan ei hun yn llinach yr eglwys, yn trysori etifeddiaeth un o achosion hynaf ac enwocaf Cymru. Cynorthwywyd Vaughan gan Bechgyn Bro Taf o dan arweiniad Rhys Griffiths, un sydd ar fin symud i fyw i Gaerffili ac yn gyn-athro yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni. Roedd dros 70 wedi ymgynnull i addoli ac i fwynhau'r arlwy yno. Cyfeiriodd y siaradwr at William Edwards 'yr adeiladwr ar gyfer dau fyd', gan bwysleisio ei ddyfalbarhad yntau i sicrhau llwyddiant yr achos, beth bynnag oedd y rhwystrau a ddaeth i'w ran. Roedd taerineb y pregethwr adeiladwr yn nodweddu ymroddiad yr eglwys yn ei gwaith ar draws y degawdau hyd at heddiw.

Bydd y sawl sy'n ymddiddori mewn hanes lleol a hanes crefydd yng Nghymru yn barod i chwilio am y deunyddiau priodol. Ceir pennod ddifyr yn 'Pebyll Seion – Hanes Ymdaith Cynulleidfaoliaeth' o dan olygyddiaeth Tawelfryn ac E. Bush (1904) a llyfr yn dwyn y teitl 'Y Groeswen 1742-1992' o waith J. Basil Phillips yn nodi 250 mlynedd o fywyd a bwrlwm yr eglwys. Am fwy o wybodaeth gellir ymweld â capel.org.uk a Westminster Abbey of Wales ar y we.

Bu naw gweinidog yn yr eglwys gyda William Edwards a Thomas William gyda'i gilydd rhwng 1752 – 1765 ac yna roedd William Edwards ar ei ben ei hun am 24 blynedd arall. Daeth Griffith Hughes yn 1798 gan wasanaethu hyd at 1841. Sefydlwyd Moses Rees yn 1841 a bu'n weinidog yno am bymtheng mlynedd. Ei olynydd oedd W. Caledfryn Williams, pregethwr a bardd enwog yn ei ddydd a fu yn yr ardal rhwng 1856 hyd at 1869. Bu bwlch o bedair blynedd cyn sefydlu William Nicholson a arhosodd am bedair blynedd. Yn 1880 cychwynnodd C. Tawelfryn Thomas weinidogaeth a barodd am 46 mlynedd, gŵr eang ei allu a'i weledigaeth. Glyndwr Williams oedd y gweinidog olaf a sefydlwyd yn 1942 ac arhosodd am chwe mlynedd hyd at 1948.

Bu'r eglwys yn arloesol yn hanes anghydfurfiaeth yng Nghymru gan ei bod ond tair blynedd yn iau nag Eglwys y Watford (sefydlwyd yn 1739) ac roedd Groeswen ddeugain ag un mlynedd yn gynharach na Tonyfelin (sefydlwyd yn 1783). Rhoddwyd pwyslais ar esbonio'r Beibl a cheisio bod yn driw i'r iaith Gymraeg. Cynhaliwyd ysgol ddyddiol yn festri Groeswen gan wasanaethu'r gymuned amaethyddol rhwng Nantgarw ac Abertridwr. Bydd llawer yn cyfeirio at y fynwent fel Abaty Westminster Cymru, gan fod cymaint o feirdd a llenorion wedi cael eu claddu yno heb anghofio y cerddor Ieuan Gwynedd. Cynhaliwyd llawer o ddigwyddiadau diwylliannol yno yn y Gymraeg. Ar draws ail hanner y ganrif ddiwethaf lleihaodd yr aelodaeth a daeth Saesneg yn brif iaith yr eglwys. Mae'r pentref yn frwdfrydig dros gadw'r achos yn fyw, a gwariwyd llawer o arian i adfer yr adeilad a'r fynwent. Gobeithio bydd llawer mwy o bobl yn manteisio ar y cyfle i ymweld â'r lle a dathlu'r etifeddiaeth sydd yno.

Y Parch Denzil I. John

Owain Glyndŵr

gan Dr Elin Jones

Ar Fedi'r 16eg 1400 cyhoeddwyd Owain Glyndŵr yn dywysog ar Gymru. Dyna ddechrau deng mlynedd o ymladd ledled Cymru, nes i'r gwrthryfel gael ei drechu. Ond nid gwrthryfelwr hunanol, yn barod i ddistrywio heddwch ei wlad er mwyn ei fudd ei hun oedd Glyndŵr, ond dyn profiadol a hirben oedd â gweledigaeth arloesol i Gymru. Ar Fedi'r 116eg 1400 dechreuodd degawd o geisio adeiladu teyrnas annibynnol yng Nghymru, gyda'i senedd, ei phrifysgolion a'i heglwys ei hun.

Ond methu wnaeth ymdrechion Glyndŵr, a does dim cofnod sicr o'i hanes ar ôl 1410. Yn ôl traddodiad, credir iddo farw ar Fedi'r 20fed 1415 – ac mae'r traddodiad hefyd yn honni ei fod yn cysgu mewn ogof rywle yng Nghymru, yn aros am y diwrnod i ddeffro ac arwain ei wlad unwaith eto.

Mae hanes Glyndŵr yn annwyl i bawb sy'n caru Cymru, ac yn ystod y blynyddoedd diwethaf ddechreuodd Cymry ddathlu ar Fedi'r 16eg – Diwrnod Glyndŵr - gan gynnal gweithgareddau amrywiol i'w gofio.

Ond ym Machynlleth, calon teyrnas Glyndŵr, saif ei Senedd-dŷ, sy'n ein hatgoffa'n barhaus o weledigaeth Glyndŵr dros ei wlad. Yma y cynhelir *tri* diwrnod i ddathlu Glyndŵr! Ar Fedi'r 15fed, 16 eg a'r 17eg eleni daeth nifer fawr o bob cwr o'r wlad at ei gilydd i gofio am Glyndŵr a'i freuddwyd. Cynhaliwyd noson o ddarlithiau a thrafodaethau yn y Senedd-dŷ ar y nos Wener; bu gwledd o weithgareddau i blant brynhawn Sadwrn, a gwledd arall o ganu a cherddoriaeth i oedolion yn y nos.

Ar fore Sul, tywysodd rhai o ddisgyblion hŷn Ysgol Bro Hyddgen ni trwy hanes y dref hynafol.

A beth am hanes Glyndŵr yn ein cwm ni? Daeth ef a'i fyddin trwy'r de ym 1403, gan gipio cestyll Casnewydd a Chaerdydd, ond does dim cyfeiriad at gastell enfawr Caerffili yn y cofnodion hanesyddol. A oedd ei furiau uchel yn codi ofn ar y milwyr, a'u harweinydd praff yn dewis eu hosgoi? Nid



Cerflun Owain Glyndwr yng Nghorwen

yw hynny'n debyg o gofio iddo ennill cymaint o gestyll eraill, ac ni fyddai'r milwr profiadol yn debyg o adael castell cryf ar ei ôl i'w beryglu wrth iddo fynd ymlaen i Gasnewydd a Chaerdydd. Y tebygrwydd yw bod castell Caerffili wedi dechrau adfeilio'n barod. Does dim cyfeiriad ato yn yr adroddiadau cyfoes am y gwrthryfel, ac ar ben hynny, ar Fedi'r 8fed, 1403 gorchymynodd y brenin i Constans le Despenser, a etifeddodd y castell oddi wrth ei gŵr, i fynd ati ar frys i'w atgyweirio!

Ond os yw hanes y castell yn dywyll, mae'n glir bod Glyndŵr wedi ennill cefnogaeth trigolion y fro hon. Ni fu'n bosibl i gasglu trethi llosgwyr siarcol Machen ym 1403 am fod y gweithwyr hynny wedi mynd i gefnogi Glyndŵr!

Newyddion Ysgol Gyfun Cwm Rhymni (Safle'r Gwyndy)

Ffônlyfr Menter Caerffili

Partneriaeth hynod gyffrous a welwyd yn datblygu yn ystod y flwyddyn oedd y berthynas rhwng Menter Iaith Caerffili a chriw o ddisgyblion ym mlwyddyn 10 er mwyn hybu'r Gymraeg. Gweithiodd criw o ddisgyblion sydd yn astudio'r cwrs TGAU Busnes yn arbennig, gyda Huw Rowlands o'r Fenter er mwyn creu Ffônlyfr o'r busnesau a'r gwasanaethau lleol cyfrwng Cymraeg. Aeth y plant ati ledled y Sir drwy guro ar ddrysau siopau a chyfathrebu'n effeithiol er mwyn adnabod pa fusnesau lleol sydd yn medru'r iaith. Penllanw'r gwaith oedd cynhyrchu Ffônlyfr deniadol maint A5 gan Fenter Caerffili sydd yn cynnwys manylion cyswllt siopau lleol, cylchoedd meithrin, adloniant, arllwyo, ysgolion, tiwtoriaid a llinellau ffôn Cymraeg. Y gobaith felly yw cynyddu ymhellach ymwybyddiaeth o wasanaethau cyfrwng Cymraeg eu hiaith yn ein hardal leol a hybu'r defnydd o'r Gymraeg. Bwriedir atgyfnerthu'r cyhoeddusrwydd amlwg a roddir i'n cysylltiadau Cymraeg a gyhoeddir eisoes yn y papur bro drwy gyfrwng y Ffônlyfr newydd. Ymatebodd y plant yn hynod frwdfrydig i'r prosiect ac maent yn awyddus i gyd-weithio gyda'r Fenter ymhellach yn ystod y flwyddyn.



Rhedwyr Reynolds Rhagorol

Mae'r ddau frawd o Gaerffili Ben (chwith) a Jacob (dde)



Reynolds yn parhau i serennu yng Nghymru ar y trac rhedeg. Bellach mae'r ddau frawd ers sawl blwyddyn yn adnabyddus iawn yng Nghymru am eu dawn rhedeg dros bellter hir. Mae 2017 wedi profi'n flwyddyn lwyddiannus arall i'r ddau. Eleni enillodd Ben bencampwriaeth 1,500 metr Cystadlaethau Athletau ysgolion Cymru a'r brawd ifanc Jacob yn



bencampwr ysgolion Cymru dros bellter 800 metr. Mae'r ddau frawd eisoes wedi cystadlu ar draws Prydain a hefyd yn ras anrhydeddus mini marathon Llundain ar gyfer rhedwyr o fri.

Newyddion Ysgol Gyfun Cwm Rhymni (Safle'r Gwyndy)

Gwisg Haf

Cyn i Dymor yr Haf ddirwyn i ben fis Gorffennaf mwynhaodd yr ysgol gyfnod llethol o dywydd poeth iawn. Mae'n debyg bod Mari Thomas o flwyddyn 10 yn dipyn o broffwydes oherwydd iddi ddylunio ffrog haf newydd ar gyfer merched yr ysgol yn ystod y gaeaf. Treuliodd Mari gyfnod yn cyd-weithio gyda'r siop ddillad ysgol yng Nghaerffili, TSS Sports dan arweiniad Mrs Siân Walsh, Pennaeth Swyddfa Ysgol Gyfun Cwm Rhymni a'r Cyngor Ysgol. Yr oedd canmol mawr i waith Mari, a bellach mae nifer o blant yr ysgol yn gwisgo'r ffrog newydd sydd ar werth yn y siôp. Er gwaethaf y tywydd siomedig yn ddiweddar, ar gychwyn y tymor ysgol newydd, mae nifer o blant yr ysgol yn mwynhau'r cyfle o hyd i wisgo'r ffrog newydd. Mari a'i ffrind Gwenllïan sydd yn modelu'r wisg yn y llun.



Taith Rygbi i Ganada

Ar ddiwedd Tymor yr Haf hedfanodd 28 o ddisgyblion Ysgol Gyfun Cwm Rhymni (chwaraewyr o'r ddwy safle) i Ganada ar gyfer y daith rygbi sydd yn digwydd bob dwy flynedd. Treuliodd y bechgyn 14 diwrnod yn ninasoedd Ottawa, Toronto, Montreal, Peterborough a Brantford. Ymhlith atyniadau'r daith, heblaw am y rygbi yn amlwg, oedd y cyfle i weld rhaeadr Niagra, dringo'r tŵr CN yn Toronto, gwylio gem broffesiynol lacrosse, cwrs dringo rhaffau uchel, gwibdeithiau amrywiol, gêm hoci iâ a thaith rafftio fythgofiadwy ar hyd dyfroedd gwyllt Ottawa. O ran y rygbi mwynhaodd y bechgyn gyfres o fuddugoliaethau da mewn amryw o gemau cystadleuol a chorfforol iawn. Elfen amlwg a fwynheuodd y disgyblion yn fawr oedd y cyfle i aros yng nghartrefi eu gwrthwynebwyr sef y disgyblion ysgol o Ganada. Yr oedd criw Cwm Rhymni yn mwynhau adrodd straeon am gartrefi di-ri gyda phyllau nofio, cyfle i dorheulo a chymdeithasu drwy flas diwylliant llwyr wahanol yng Nghanada.



BanglaCymru

Dyma'r newyddion diweddaraf am yr elusen BanglaCymru gan Wil Morus Jones:

Un o nodweddion mwyaf arwyddocaol f'arhosiad tair wythnos diweddar ym Mangladesh oedd y tywydd eithafol. Ar brydiau cyrhaeddodd y tymheredd bron i 40 gradd ac am ddyddiau buom yn disgwyl seiclon go arw. Cwynai'r trigolion lleol, yn fwy na fi hyd yn oed, gan ddweud na phroffon nhw erioed o'r blaen y fath wres affwysol. Ond yna cyrhaeddodd y seiclon ag uffern gyda fo. Maluriwyd rhannau o'r ddinas gan achosi dioddefaint mawr a gadael tua 80,000 o bobl, yn enwedig ffoaduriaid o Myanmar, heb loches. Welais i erioed y ffasiwn beth! Cafodd hyn oll effaith andwyol ar ein cynlluniau i berfformio llawdriniaethau. Yn yr ysbyty lle y trefnwyd un sesiwn fe ganslwyd yr holl llawdriniaethau di-argyfwng oherwydd diffyg peiriannau cyflyru aer yn yr ystafelloedd adfer. Yna, i wneud y sefyllfa'n fwy cymhleth dechreuodd Ramadan a gyfyngodd ar ein gwaith yn fwyfwy. Fodd bynnag, braf yw gallu dweud fod Dr Jishu a thîm meddygol BanglaCymru wedi gallu cynnal sesiwn llawdriniaethau ddeuddydd cyn i mi gyrraedd gan newid saith bywyd, ac y mae gobaith o gynnal mwy ar ôl i Ramadan ddod i ben. Hefyd, ychydig wythnosau'n ôl cynhaliwyd sesiwn llawdriniaethau yn Cox's Bazar lle y perfformiwyd 13 llawdriniaeth. Mae llawdriniaethau unigol hefyd yn digwydd yn Chittagong yn eithaf rheolaidd.



*Yr agoriad
swyddogol*

Uchafbwynt yr ymweliad y tro hwn oedd seremoni agor y ganolfan newydd mewn ardal wahanol a hynod o dlawd. Anodd yw credu fod pobl yn gallu byw dan y fath amgylchiadau. Mae'r ganolfan ei hun mewn adeilad aml lawr newydd a'r rhan o'r llawr yn perthyn i ni wedi'i gynllunio gan Dr Jishu.

Mae ynddi ystafell aros, ystafell ymgynghori Dr Jishu, swyddfa fechan i Sulika ein hymwelydd iechedd sy'n cael ei noddi gan Soroptomists Pontypridd, un ystafell ymgynghorol i feddyg cyflenwi / ymgynghorydd, ac wrth gwrs, theatr llawdriniaethau ar gyfer mân driniaethau anesthetig lleol. Mae gyda ni drefniadau gydag ysbyty lleol ar gyfer llawdriniaethau sy'n gofyn am anesthetig llawn er mwyn cydymffurfio â rheoliadau meddygol y wlad.

Bues yn ein canolfan bob dydd yn ystod f'arhosiad yn eistedd gyda'r cleifion ac yn cael adroddiad gan Dr Jishu am eu cyflwr. Yn barod, mae'r ganolfan hon yn llawer prysurach na'r un flaenorol. Un diwrnod cynhaliom feddygfa allanol mewn lle anghysbell pan fu raid inni groesi afon a chulfor i gyrraedd y lle. Roedd y cyfan wedi'i drefnu gan Sulika'r ymwelydd iechedd sydd bellach yn gyfarwydd â holl ardaloedd dalgylch ein canolfan. Gwelsom 51 o gleifion y diwrnod hwnnw. Treuliais ddiwrnod hefyd yn ein hail ganolfan mewn pentref tua 40 milltir o Chittagong. Mae'r ganolfan feddygol hon dan ei sang yn ddyddiol.

Ers f'adroddiad diwethaf mae ein priod genhadaeth, sef rhoi llawdriniaeth i gleifion gwefus a thaflod hollt a llosgiadau wedi codi 27 i 1,211, ers sefydlu BanglaCymru.

Colofn Dafydd Islwyn

Diwrnod trist iawn oedd Dydd Gwener, 30ain o Fehefin eleni. Cyhoeddwyd Y Cymro, papur wythnosol Cymraeg ers 1932, am y tro olaf; amgylchiad trist iawn i bapurgarwyr Cymraeg, sy'n prinhau yn gyflym. Bu ei gyfraniad yn aruthrol. Ar y 5ed o Fedi 1936 sefydlwyd Y Babell Awen dan olygyddiaeth Dewi Emrys, Llundain ar y pryd, ac ymddangosodd yn y papur tan farwolaeth Dewi Emrys yn Aberystwyth ar yr 20fed o Fedi 1952.

Yn 1939 cyhoeddwyd Beirdd y Babell, golygydd Dewi Emrys. Rhestrwyd yng nghefn y gyfrol y beirdd fu'n cyfrannu i'w golofn am dair blynedd gyntaf ei bodolaeth. I blesio fy hun, rhestrais rai o'r beirdd i dri dosbarth - beirdd Sir fy mebyd; beirdd cynefin Cwm Ni a darpar brifeirdd. Pymtheg o feirdd â chysylltiad ag Ynys Môn, yn eu plith Gwyngyll o Lanfairpwll a Hugh Williams, Min y Môr, Aberffraw. Wrth ymchwilio i hanes y ddau fardd, a fu farw ar ddechrau chwedegau'r hen ganrif, deuthum i gysylltiad â merch Gwyngyll, sy'n byw ym Mhorthcawl a merch Min y Môr sy'n byw yng Nghaergybi. Wrth sôn am Hugh Williams, Aberffraw, mewn papur lleol ym Môn yn ddiweddar, dylanwadais ar ei ferch i fwrw iddi i gasglu cerddi ei thad. Wrth fras ddarllen y rhestr yng nghefn y gyfrol, a brynais fis Rhagfyr 1963 ym Mangor, sylwais fod tri darpar brifardd ar ddeg wedi derbyn cyngor gan Dewi Emrys yn ei golofn. Yn eu mysg y mae Willie J. Gruffydd, Ffair Rhos - y Prifardd Elerydd yn ddiweddarach; T. Llew Jones, Pentre-cwrt, Sir Gaerfyrddin a'r Parchedig R. Bryn Williams, Llanberis, ar y pryd. T. Llew Jones enillodd ar yr englyn yng Nghaerffili yn 1950 ac R. Bryn Williams enillodd y wobr am nofel i blant, "Bandit yr Andes", ei chefnidir ym Mhatagonia, yn y Genedlaethol honno.

Ceir yn y gyfrol delyneg gan Ifor Evans, Glyn Ebwy. Rhestrir E. M. Humphreys, Bargod ac Edgar Phillips, Y Prifardd Trefin, y Coed Duon, ymysg y beirdd. Ond ni chyhoeddwyd un o'u cerddi yn y gyfrol. Ceir englynion gan bum englynwr o'r de-ddwyrain.

Testun englyn Glan Hywi, y Coed Duon, oedd "Hiraeth". Tybed a oedd yr englyn i mewn yn Abergwaun yn 1936? Brodor o'r Bontddu, ardal Dolgellau oedd ef. Enillodd ar yr englyn yn Ninbych 1939. Dyma ei englyn i hiraeth,



Ni thaw hiraeth a'i eirio – er cael aur,
Er clod uchaf allfro;
Hyd lwch does heddwch iddo
Ond o roi'i fryd ar fro.

Mae gan R. Ingram, Bedlinog, ddau englyn yn y gyfrol. Mae disgynyddion yr englynwr, brodor o Sir Drefaldwyn yn dal i fyw yn ardal ein papur bro. Yn 1906 cyhoeddodd gyfrol o'i gerddi "Ceinin Cynganedd". Testun dau englyn yn y gyfrol "Beirdd y Babell" ydy "Ewyn y Don" ac "Y Pistyll". Dewisais yr ail oherwydd ei drydedd linell,

Un â nod i'n disychedu – yn rhad,
A'r cryf iddo'n plygu;
Swyn y wlad, gwas hen i lu
A'i fwyn gynnodd yn ganu.

Brodor o Lanllyfni, Gwynedd, oedd R.D.Roberts (1896-1977) a symudodd i Fedlinog yn ddyn ieuanc. Cyhoeddwyd ei soned "Trychineb Aberfan" yn y gyfrol "Dagrau Hallt - Cerddi Aberfan" a gyhoeddwyd y llynedd. "Ysbyty" oedd testun ei englyn yng nghyfrol "Beirdd y Babell".

Rhydd le clyd rhwng byd a bedd - i'r cleifion

A'r clwyfus i orwedd;
Ei nod gwâr yw newid gwedd,
A'i law ysgawn ar lesgedd.

Y ddau englynwr arall oedd J.B.Jones, Abertyleri a dau englyn gan W.Williams, Casnewydd; dyma'i englyn "Blodwen Caerllion",

Nodedig enaid ydoedd – yn rhannu
O'i rhincian i luoedd;
Taer ei wawl, hoffter miloedd,
Eos yr ŵyl, anwylaf oedd.

Bant i Batagonia

gan Owain Ash



Gyda'r daith yn agosáu'n fuan cafodd Joanna a finnau'r cyfle i ymweld â Glan Llyn er mwyn cwrdd â'r bobl ifanc eraill am y tro olaf cyn ein taith. Dyma oedd y tro cyntaf i Joanna gwrdd â'r bobl ifanc eraill, a chawsom amser penigamp yn eu cwmni. Cawsom amser wrth ein bodd yn cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau ar Lyn Tegid gan gynnwys 'Paddle Boarding', caiacio yn ogystal â cherdded afon. Cyflawnwyd y rhain i gyd er gwaetha'r dŵr rhewllyd!

Roedd hi'n bleser unwaith eto i fanteisio ar y cyfle i gymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg o fore gwyn tan nos gyda chriw Patagonia ac yn gyfle perffaith i gadarnhau trefniadau. Cawsom y cyfle i ymarfer fel côr am y tro cyntaf mewn paratoad ar gyfer Eisteddfod y Wladfa. Bydd pwysau mawr arnom, gan fod Criw'r Urdd wastad wedi ennill y gystadleuaeth! Byddwn yn canu "Rwy'n Dy Weld yn Sefyll", ond bydd hefyd disgwyl i ni gymryd rhan mewn nifer o sioeau a pherfformiadau yn ystod y daith.

Cawsom fore felly o ganu clasuron Cymreig er mwyn gallu diddanu'r bobol leol. Yn ogystal, trafodon ni trwy gyfrwng Skype ag un o Swyddogion Menter Patagonia a gynigiodd lawer o gyngor am y daith gan lwyddo i ateb ein holl gwestiynau.

Ar yr unfed ar hugain o Hydref byddwn yn cychwyn ar ein taith ac yn treulio deuddydd ym Muenos Aires cyn teithio i'r Paith. Yn ystod ein hwythnos gyntaf, treuliwn wythnos yn Nyffryn Camwy lle cynhelir yr Eisteddfod, cyn teithio dros nos i ardal fynyddig Cwm Hyfryd. Yn ystod ein pythefnos cawn amrywiaeth o brofiadau, megis ymweld ag ysgolion lleol gan gynnal gweithdai i'r plant trwy gyfrwng y Gymraeg, plannu coed yn y Parc Cenedlaethol, ymweld â thrigolion lleol, a rafftio dŵr gwyn.

Gyda'ch holl gymorth a charedigrwydd rydym eisoes wedi llwyddo i gasglu'r £4800 i dalu am y daith a hoffem ddiolch yn ddiffuant i bawb sydd wedi'n cefnogi. Edrychwn ymlaen at rannu ein profiadau yn rhifyn nesaf y papur. Er mwyn cynorthwyo ysgolion lleol Patagonia, byddwn yn darparu adnoddau megis glud, teganau, llyfrau a nwyddau Cymreig. Os hoffech gyfrannu unrhyw nwyddau neu holi am wybodaeth bellach, cysylltwch ag Owain gan e-bostio

owash16@gmail.com

Colofn Y Dysgwyr

gan Ann Lewis

Croeso i Golofn y Dysgwyr mis Hydref. Wel mae'r ysgolion wedi hen ail-ddechrau (*long since re-started*) ac mae dosbarthiadau oedolion wedi dechrau hefyd erbyn hyn. Dyma gerdd ysgafn am wersi ysgol gan Tudur Dylan. Dyw'r disgybl yma ddim yn hoffi llawer yn yr ysgol ac mae llawer o hiwmor yn y gerdd. Sylwch hefyd ar yr idiomau, y pethau yna dych chi ddim yn gallu eu cyfieithu o un iaith i'r llall ac sy'n cyfoethogi eich iaith.

Gwersi

Mae Arlunio'n boen, a does gen i ddim cliw,
Ac mae'r athro ei hun y peth mwya di-liw.

Mae'n gas gen i Ffrangeg, wir i chi,
Ond mae'n rhaid i mi'i gymryd, felly *C'est la vie!*

Yn y gwersi Cerddoriaeth, dw i braidd yn chwit-chwat
Mae mhen i fel drwm ac mae popeth yn fflat.

Yn Technoleg Bwyd, mae'r athrawes yn gas
Ac felly mae'r gwersi wedi colli eu blas.

Yn Daearyddiaeth mae gen i wir ddawn,
Ond 'mod i'n methu cael hyd i'r ystafell yn iawn.


Dw i'n cyfri a chyfri yn Maths am y gore,
Sef cyfri'r munudau tan amser mynd adre.



erbyn hyn : by now *ysgafn* : light-hearted *disgybl* : pupil *idiomau* : idioms
cyfieithu : translate *o un iaith i'r llall* : from one language to another *cyfoethogi* : enrich
di-liw : colourless, boring *chwit-chwat* : unreliable, changeable *methu cael hyd i* : can't find
wedi colli eu blas : have lost their savour, uninteresting *am y gore* : with the best of them

Yr Atebion

Dyma ni! Sawl un gawsoch chi'n iawn wrth wneud posau tudalen 5?



Ein diolch i diwtoriaid Cymraeg Coleg Gwent am yrru traethodau gan eu dysgwyr gorau.

RHEILFFORDD RHYMNI



Roedd Rheilffordd Rhymni (RR) yn eitha bach, gyda thua 50 milltir o drac, ond talodd ar ei chanfed a symudodd hi gryn dipyn o draffig. Wedi'i henwi ar ôl yr afon, yr oedd ei gwreiddiau yn y diwydiant haearn a ddatblygwyd yn agos at frig y cymoedd, oherwydd bod glo, haearn a chalchfaen

ar gael yn yr ardal. Cafodd ffowndri haearn ei hadeiladu yn Rhymni yn 1800 a datblygodd y cwmni tua 20 milltir o 'reilffordd' o gwmpas yr ardal.

Roedd gan yr Ardalydd Bute hawliau mwynau yn yr ardal yn ogystal â buddsoddi'n fawr ym Mhorthladd Caerdydd. Penderfynodd e adeiladu rheilffordd i lawr y cwm i ymuno â Rheilffordd Cwm Taf (RTV) yn Llancaiach. Sut bynnag, ni chymeradwywyd y cynllun. Felly datblygodd ail gynllun llwyddiannus i estyn i'r de tua deng milltir tuag at Gaerffili, cyn troi i'r gorllewin tuag at Gwm Taf i ymuno â'r TVR, ger Ffynnon Taf.

Agordd yr RR ei thrac sengl yn 1858 yn gweithio tri thren i deithwyr bob dydd o Gaerdydd i Rymni ac yn ôl (dau ar ddydd Sul) ac hefyd llawer o drenau nwyddau. Cymerodd y daith awr a hanner.

Roedd gormod o drenau ar y TVR yn achosi oediadau a perthynas gwaith drwg rhwng RR a TVR. Felly penderfynodd RR adeiladu llinell ei hun trwy dwnel newydd ger Cefn Onn. Ar ôl saith mlynedd o waith, agorwyd y twnel ar 1 Ebrill 1871.

Ymunodd RR â Grŵp GWR yn 1922. Mae bron pob milltir o drac RR a gafodd ei adeiladu rhwng 1855 a 1895, yn dal i fod mewn gwasanaeth heddiw.

Mike Snook. Dosbarth Uwch 4 Aberbargoed

Diolchgarwch 2017

Byddaf yn meddwl fod yr hydref yn canu cân olaf y flwyddyn ac mae'r arogleuon yn mynnu cael aros mewn coffadwriaeth felys. I mi, dyma dymor prydferthaf y flwyddyn a hefyd y cyfoethocaf - cynhaeaf y flwyddyn. Onid hwn yw cymundeb y ddaear? Mae'n dweud wrthym, cymerwch, bwytwch a byddwch ddiolchgar. Diolchwch YM mhob peth a mynd AM bopeth.

Yn wir, mae yna gymaint y mae'n rhaid diolch amdano, onid oes? A ydym yn diolch digon, dywedwch? Mae'r hydref, wrth basio, yn cyflwyno ei holl stôr i ni ac a ydym yn rhy brysur i ddiolch am holl fendithion y tymor?

Pen blaenor capel Bethel, Waunfawr oedd, o annwyl goffadwriaeth, John Jones, Gwastadfaes, a chofiaf ef ar ei liniau yn y Sedd Fawr adeg Diolchgarwch.. "Ein Tad Annwyl, rydym yn diolch i ti am dy holl fendithion ar ein rhan bwyd, cynhaliaeth ac iechyd." Clywch, Ben Davies, Panteg,

Ffyddlon yn y cariad dwyfol
Uwch trueni euog fyd
Gyda llaw agored dadol
Byth yn llawn er rhoi o hyd.

Elwyn Parry

Canadram
Y Memo, Treceilyn NP114FH
Nos Iau
5:00-6:30pm
£3 yr wythnos
I blant oedran 6+
Eleni byddem yn cystadiu yn y gân actol!
Cysylltwch am rhagor o fanylion

Dawns Di-ri
Clwb Bowlio Islwyn NP122JR
Nos Fawrth
5:00-5:45pm Oedran 4-7
6:00-7:00 Oedran 7-11
£3 yr wythnos
Dechrau Nos Fawrth Hydref 3 2017
Cysylltwch am rhagor o fanylion

Theatr Ieuenctid
Sefydliad Y Glowyr Coed Duon
Nos Fawrth
6:00-7:30pm
£3.50 yr wythnos
I ieuenctid oedran 12+
Cyfle i ddysgu sgiliau theatr a perfformio.
Cysylltwch am rhagor o fanylion

Trefnu Blodau
Dechrau Hydref 9, 2017
18:30-20:30
£5 y sesiwn
Dosbarth bob pythefnos
Ystafell Gwaith Coed,
Safle Y Gwyndy,
Cwm Rhymni, Caerffili
(Mynedfa nos drwy'r ganolfan chwaraeon)

Cwrs Coginio
i oedolion
£5 y sesiwn
Dechrau Nos Lun, Hydref 30
18:30 - 20:30
Bob pythefnos
Ystafell Coginio
Safle Y Gwyndy, Caerffili
(Mynedfa drwy'r ganolfan chwaraeon)

PARTI CALAN GAEAF
I BLANT CYNRADD
CERFIO PWMPEN
CREFFT
GEMAU
GWISG FFANS!
BWYD PARTI
A MWY
DYDD MAWRTH
HYDREF 31
12:30 - 3:00PM
£3
NEUADD
CWM RHYMINI
SAFLE GELLI HAF

Cwrs Coginio
£10
Oedran 8-12
Dydd Mercher Tachwedd 1
10:00-12:30
@ Groundwork Wales
(Ty Mynyddislwyn Environment Centre, Bryn Road, Pontllanfraith, Blackwood NP12 2BH)
Rhaid bwcio cyn Hydref 23

BWRLWM YN Y BEECH

Tafarn Y Beech Tree,
Ystrad Mynach

Nos Iau
Hydref 5
19:00 ymlaen

Nosweithiau misol
wedyn i ddilyn
Dydd Iau cynta'r mis

Noson
gymdeithasol
dros diod,
dewch i ymuno
am sgwrs.
Addas i
siaradwyr
Cymraeg
o bob allu.

**S'ADW'R N
S'IA'R A'D**

Hydref 28
10:00-12:00

Caffi yr Hen Lyfrgell,
Parc Morgan Jones

Taith Siopa Nadolig
2017
Menter Caerffili
Tachwedd 23 • Birmingham • £12



Ffair Nadolig
2017
Menter Caerffili
yn
Llancaiach Fawr
Rhagfyr 2 11:00-3:00

AM DDIM FREE ENTRY

Grotto Sion Corn Stondinau anrhegion
Ceirw Creu Torch Nadolig
Perfformiadau ysgolion Celf a chrefft
Bwyd a diod A llawer mwy...
Martyn Geraint



TACSI GORSAF CAERFFILI

Cysylltwch â KEITH ar
022 362364 neu 07914 355195
[facebook.com/tacsigorsafcaerffili](https://www.facebook.com/tacsigorsafcaerffili)



Defnyddiwch Gardiau Debyd/Credyd

Eisiau ymarfer eich Cymraeg?

Ymunwch â ni ar 2-il ddydd Mawrth y mis yn
Llyfrgell Caerffili ar yr 2-il lawr Cyfarfod nesa –
10 Hydref am 2 o'r gloch
Byddwn ni'n darllen "Straeon Tafarn" gan Dewi Pws

Cofiwch hefyd am:
Y bore coffi ym Medwas, Caffi'r Graig bob
dydd Llun o 10.30 ymlaen. A'r bore coffi yn
y Malcolm Uphill (Wetherspoons), Caerffili
bob dydd Mawrth o 10 o'r gloch ymlaen

Cyswllt: JanPenney@aol.com

Croeso i Bawb

Clwb Darllen Cwm Ni

Ail Lawr

Llyfrgell Newydd Caerffili

2:00 o'r gloch

Hydref 2ail **Awst yn Anogia**

Tachwedd 6ed **Dŵr yn yr Afon**

Rhagfyr 4ydd **Abermandraw**

Cyswllt

janpenney@aol.com



www.iwcs.cymru

Bob

Nos Fawrth,

Clwb Rygbi Penallta

6.00 – 8.00

£5 y sesiwn

07745927308

Pob Nos Fawrth 7:00yh

Côr Cwm Ni

Capel Bryn Seion,

Ystrad Mynach

Croeso i Aelodau Newydd

Canolfan Siloh Ystrad Mynach

Saib@Siloh – gyda loan



Cyfarfod defosiynol misol Cymraeg

10.30 – 11.30 ar fore Llun

2 Hydref – Byw trwy'r frwydr (1 loan 4:15-5:5)

6 Tachwedd - Hyder mewn gweddi (1 loan 5:6 - 21)

Croeso i bawb!

ymholiadau@siloh.co.uk / info@siloh.co.uk /

www.siloh.co.uk

CF82 7AF

01443 813617

Coleg Gwent

Cyrsiau Dysgu Cymraeg

Ysgol Undydd Cwm Rhymni 30/9/17

Ysgol Undydd Casnewydd 21/10/17

Cwrs Penwythnos Pontypŵl 16-17/9/17

Cwrs Penwythnos Pontypŵl 25-26/10/17

Am Fanylion Pellach: 01495 333710



01443 879396



Dillad Gwaith * Cit Hamdden * Gwisg Ysgol

JansanWear

Uned G, Ystad Ddiwydiannol Bowen, Aberbargoed, CF819EP

Llun y Mis gan Dorne Morgan



Llyfrau'r Enfys
Facebook/Llyfraurenfys
Twitter @llyfraurenfys
Vikki Alexander-07970172754



Fab Fabrics
@FabFabrics
Fab Fabrics, Ystrad Mynach
Tel. 07964 822865
fabfabrics99@gmail.com